# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 08/12/2009

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Seilwaith Trafnidiaeth

**C9 Brynle Williams:** Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella seilwaith trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru? OAQ(3)2478(FM)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Gweithio gyda Network Rail i nodi ffyrdd o gyflymu amseroedd teithio ar wasanaethau rhwng y gogledd a'r de, a threfnu bod y Gerallt Gymro yn mynd drwy Wrecsam yn hytrach na Crewe yw rhai o'n blaenoriaethau. Yr ydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddod o hyd i'r atebion mwyaf priodol er mwyn mynd i'r afael â phroblemau trafnidiaeth yn ardal Wrecsam, Caer a Glannau Dyfrdwy.

### Cefnogi Busnesau

**C10 Paul Davies:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi busnesau yng Nghymru? OAQ(3)2479(FM)

**Y Prif Weinidog**: Ers mis Ebrill, drwy'r gronfa fuddsoddi sengl a Chyllid Cymru, yr ydym wedi ymrwymo i fuddsoddi bron £95 miliwn i gefnogi busnesau Cymru. Mae £19.7 miliwn wedi'i ymrwymo hefyd o dan y rhaglen ProAct er mwyn helpu 156 o gwmnïau i ddiogelu 7,619 o weithwyr.

### Cynlluniau Deddfwriaethol ar gyfer 2010

**C11 Jonathan Morgan**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau deddfwriaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2010? OAQ(3)2473(FM)

**Y Prif Weinidog**: Byddwn yn parhau i gyflwyno gerbron y Cynulliad yr eitemau newydd o ddeddfwriaeth a gyhoeddwyd yn fy natganiad ar 14 Gorffennaf, ac i fwrw ymlaen â'r eitemau hynny sy'n mynd drwy'r broses ddeddfwriaethol ar hyn o bryd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu cyn gynted ag y bo modd.

### Cyfleusterau Hamdden

**C12 Ann Jones :** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cyfleusterau hamdden sydd ar gael ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru? OAQ(3)2487(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae dros 175 o neuaddau chwaraeon sy'n eiddo i awdurdodau lleol ledled Cymru ac sydd ar gael i bobl hŷn sydd am gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau hamdden ac adloniant, a 120 o byllau nofio sy'n cynnig sesiynau nofio am ddim i bobl hŷn .

### Agenda Polisi i'r Dyfodol

**C13 Andrew R.T. Davies**: Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o gyfeiriad agenda polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r dyfodol? OAQ(3)2466(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Llywodraeth hon wedi gosod sylfaen gadarn yn ei lle ar gyfer llunio polisïau ac yr wyf yn ffyddiog y bydd fy olynydd yn parhau i ddarparu polisïau sy'n cyfateb i anghenion a blaenoriaethau Cymru.

## Gwlad Masnach Deg

**C14 Lorraine Barrett:** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cymryd i gynnal statws Cymru fel Gwlad Masnach Deg? OAQ(3)2462(FM)

**Y Prif Weinidog:** Ers i ni ddod yn Wlad Masnach Deg yn 2008, yr ydym wedi cefnogi ymdrechion i gynyddu ymwybyddiaeth o gynnyrch Masnach Deg, ac i annog rhagor o ysgolion, prifysgolion, busnesau, trefi a dinasyddion Cymru i ddefnyddio'r cynnyrch hwn. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dal i ddefnyddio ac i hyrwyddo cynnyrch Masnach Deg yn unol â'n hymrwymiadau.

## Terfynau Cyflymder Lleol

**C15 Sandy Mewies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am osod terfynau cyflymder lleol yng Nghymru? OAQ(3)2486(FM)

**Y Prif Weinidog:** Aeth y Dirprwy Brif Weinidog ati i lansio set nerwydd o ganllawiau ar gyfer gosod terfynau cyflymder lleol yng Nghymru ar 5 Tachwedd. Byddant o gymorth i awdurdodau priffyrdd, yn enwedig awdurdodau lleol, wrth adolygu a diwygio terfynau cyflymder ar eu ffyrdd lle bo hynny'n briodol.